Cylchlythyr Cymunedol Dolwyddelan

Gwanwyn 2025

HEDDLU GOGLEDD CYMRU

Ffyrdd i gysylltu â ni.
Gwneud yr alwad iawn . . .

1

101

Angen hysbysu am ddigwyddiad newydd ond nid yw'n argyfwng?

FFONIWCH 101.

Os na allwch gael drwadd i 101, defnyddiwch y sgwrs ar-lein ar wefan Heddlu Gogledd Cymru.

2

CHAT ONLINE

Hefo cwestiwn? Sgwrsiwch ar-lein. Nid i'w ddefnyddio mewn argyfwng.

DEFNYDDIWCH EICH FFÔN SYMUDOL, TABLED NEU GYFRIFIADUR I SGWRS AR-LEIN.

3

999

A oes perygl i fywyd? A oes trosedd yn digwydd ar hyn o bryd? A oes angen yr Heddlu ar unwaith?

FFONIWCH 999.



Bydd achosion 101 a sgyrsiau ar-lein yn cael eu brosesu drwy ymholiadau araf. Edrychir ar achosion i gyd ac **NID** yw'n wastraff amser. Os nad ydym yn gwybod am ddigwyddiad, ni allwn wneud dim amdano.

MENTER SIABOD

I gysylltu â'r Pafiliwn – 01690 750 490 (peiriant ateb)
Os ar frys cysylltwch ag un o'r canlynol -
Paul Donnelly 07534 120 193 Bob Valintine 01690 750 205
Eunice Cawley 01690 750 268
mentersiabod@googlemail.com
Pafiliwn Cymunedol Dolwyddelan, Tu ôl i'r Ysgol Dolwyddelan, Conwy LL25 0SZ

Taliadau Llogi'r Pafiliwn ac Ystafell Gwyddelan

Sefydliad	Bore (hyd at 4 awr)	Prynhawn (hyd at 4 awr)	Gyda'r nos (hyd at 4 awr)	Diwrnod Llawn
Cyfarfodydd cyson (wythnosol/misol) Lleol/Elusennol/Gwirfoddol Sefydliadau	£10	£10	£10	£25
Un-tro neu achlysurol Lleol/Elusennol/Gwirfoddol Sefydliadau	£15	£15	£15	£35
Busnes	£25	£25	£25	£60
Mae'r defnydd o gyfarpar Clywedol/Gweledol yn gost ychwanegol o £5 y sesiwn				
Bydd sefydliadau Lleol/Elusennol/Gwirfoddol (digwyddiadau rheolaidd) gyda llai na 10 yn bresennol yn talu £1 y pen y sesiwn hyd at 4 awr.				

Ar gael i'w llogi fesul diwrnod gan Fenter Siabod yn y Pafiliwn



Cadair Olwyn - £5 y dydd

Pebyll - £50 y dydd (ynghyd â blaendal o £50)

Byrddau Plyg – am ddim i drigolion lleol

Teclyn siampŵio Carpedi - £10 y dydd

Glanhawr Mannau Penodol (yn ddefnyddiol ar gyfer y grisiau) £5 dydd

Unrhyw ymholiadau cysylltwch a . . .


Bob Valintine 01690 750 205 Paul Donnelly 07534 120 193

Eunice Cawley 01690 750 268

Sinema'r Pentref

Ystafell Gwyddelan– 7.00yp Atyniadau sydd ar y gweill

Mawrth 18



Ebrill 15



Mai 19



CYMDEITHAS HANES DOLWYDDELAN

7.00yh yn yr Ystafell Gyfrifiaduron, y tu ôl i Ysgol Dolwyddelan.

Dydd Llun 3ydd Mawrth
Siopau, Tafarndai a Gwestai Dolwyddelan, 1790 ymlaen
gan Shaun Hewitt

Dydd Llun 7fed Ebrill
I'w gyhoeddi

CLWB DYDD LLUN DOLWYDDELAN

Caiff Clwb Dydd Llun y pentref ei gynnal yn y Pafiliwn am 2 o'r gloch ar bedwerydd dydd Llun y mis.

Mae ein cyfarfodydd yn anffurfiol, lle gallwn fwynhau sgwrs ddifyr gan siaradwr gwadd, cymryd rhan mewn cwis – neu dim ond mwynhau cwmni ein gilydd a sgwrsio a chwerthin dros baned o de a bisgedi.

Yr eithriad i'r cyfarfodydd arferol yn y Pafiliwn ydy pan fyddwn yn cael ein Cinio Nadolig ym mis Rhagfyr – neu pan fydd gennym ddiwrnod trip yn yr haf. Mae tripiau blaenorol wedi cynnwys diwrnod yn teithio o amgylch Ynys Môn, taith gwch o amgylch Ynys Seiriol a diwrnodau syml allan yn archwilio gogledd Cymru ayb.

Croeso mawr i aelodau newydd!

John

CLINIG TRIN TRAED DOLWYDDELAN



Mae Gwasanaeth Trin Traed bellach ar gael yn **AJPHYSIO**, yn yr **Hen Feddygfa, Stryd yr Eglwys** bob **Dydd Llun**, o **10:30yb** ymlaen

Yr ymarferydd cymwys ydy Rebecca, fydd yn hapus i drefnu apwyntiad gyda chi ar **07476 942 251**
Ffoniwch neu anfonwch neges ati.

CAPEL HANESYDDOL BETHEL YN NOLWYDDELAN

Cafodd Capel Bethel ei gynnig fel ateb posibl, i hwyluso anghenion cynyddol y gymuned, fel sydd wedi'i nodi yn Arolwg Cymunedol Dolwyddelan. Mae Grŵp Gweithredu Bethel yn elusen gyfansoddiadol, sy'n gweithio tuag at sicrhau'r Capel at y diben hwn a gwarchod treftadaeth Cymru ar yr un pryd. Rydym yn cynnal cyfarfodydd rheolaidd ac wedi ein sefydlu ers 18 mis.

Y llynedd, bu inni gynnal archwiliad gweledol mewnol ac arolwg dimensiynol, i werthuso defnydd posibl o'r ardal. Fel mae'r lluniau yn dangos, mae'r tu mewn yn anhygoel. Hoffem ddiolch i Eurwyn am ei garedigrwydd wrth ganiatáu'r Grŵp i gael mynediad at y Capel, roeddem ni'n ei werthfawrogi'n fawr.

Yn anffodus, mae ychydig o dystiolaeth o bydredd a fandaliaeth, sy'n anodd ei anwybyddu o ystyried safle amlwg yr ased hanesyddol hwn. Mae un o'n haelodau wedi gwirfoddoli'n ddiweddar i helpu i wneud yr adeilad yn ddiogel a diogelu'r tu mewn rhag tywydd mawr.

Rydym wedi derbyn ymateb cadarnhaol i'n hachos gan wahanol sefydliadau, gan gynnwys llythyr gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri, yn mynegi eu cefnogaeth i'r cynlluniau ar gyfer gofod cymunedol a thai. Mae sefydliad adeiladau crefyddol hanesyddol Cymru hefyd wedi bod draw yn ymweld ac rydym yn ymgysylltu â grwpiau lleol i sicrhau ein bod yn adlewyrchu'r anghenion, fel sydd wedi'i nodi gan yr Arolwg Cymunedol.

Felly, beth ydy'r camau nesaf? Byddwn yn gwahodd llythyrau o gefnogaeth gan grwpiau cymunedol, busnesau a masnachwyr lleol, rydym yn adeiladu gwefan syml (www.bethel-action-group.jimdosite.com) a byddwn yn parhau i weithio ar ddiogelu a chynnal a chadw trysor hanesyddol Dolwyddelan.

Cysylltwch am fwy o wybodaeth . . .

Richard Griffin, Cadeirydd
Richard_griffin@btinternet.com M. 07736059925

Helena Wroblewska, Ysgrifennydd
Helena_w@btinternet.com M. 07828 761114

Helena Wroblewska
















SEFYDLIADC Y MERCHED DOLWYDDELAN

Cyfarfodydd y Gwanwyn

Mawrth 1af – Trip Dydd Gŵyl Dewi
Mawrth 7fed – Cyfarfod Blynyddol Cyffredinol
Ebrill 4ydd – Ymweliad gan Sefydliad Achub Mynydd Dyffryn Ogwen
Mai 9fed - Actio a Drama : siaradwr Cathie Griffin

Os hoffech ymuno â'n grŵp cyfeillgar a chroesawgar, rydym ni'n cyfarfod ar ddydd Gwener cyntaf y mis am 7:00yh.

Cysylltwch gydag Alison 07534 284188 am fwy o wybodaeth.

GRŴP CREFFTAU DYDD LLUN

Rydym ni'n cyfarfod bob dydd Llun o 10:00yb tan 1:00yp
(rydym bellach wedi ychwanegu awr ychwanegol)



£1 y person Croeso i bawb

Dewch i wneud crefftau gyda ffrindiau o'r un meddylfryd a rhannu syniadau a phrofiadau.

Mae gennym bellach beiriant gwnïo cymunedol i unrhyw un ei ddefnyddio i wneud gwaith atgyweirio, newidiadau, gwnïo prosiect ayb.

CLWB CINIO DYDD GWENER

Dewch draw i ymuno â'r clwb cinio dydd Gwener, mae'n lle braf i gwrdd a sgwrsio.

Bob dydd Gwener yn y Pafiliwn o 12:00yp (er cewch gyrraedd unrhyw bryd) tan tua 2:00yp, neu bryd bynnag byddwn ni wedi gorffen sgwrsio!

Ydych chi'n newydd i'r pentref ac eisiau cwrdd â phobl leol? A fyddech chi'n hoffi gwneud mwy o ffrindiau?

Gall fod deg ohonom ni yno, neu ugain, neu fwy - pwy a ŵyr! Ond mae bob tro yn gyfeillgar, croesawgar a chefnogol. Mae croeso i bawb o unrhyw oed gan mai rhif yn unig ydy oedran yma yn Nolwyddelan.

Dewch â'ch brechdanau a'ch diodydd eich hunain
(mae tegell a micro-don ar gael).

Bydd raffl yno - £1 y tocyn – lle bydd pawb gan amlaf yn ennill gwobr 😊

Prosiect ‘O’r Pridd i’r Plât’ Dolwyddelan

Mae pobl ifanc Dolwyddelan wedi bod yn brysur yn elwa o’r rhandiroedd yn Nolwyddelan drwy dyfu a helpu i gynnal y llysiau a’u troi yn bryd o fwyd i fwydo’r clwb cyfan. Mae pobl ifanc Dolwyddelan wedi mwynhau’r prosiect yn fawr iawn ac mae wedi’u helpu i ddysgu sgiliau bywyd a chymdeithasol heb iddynt hyd yn oed sylweddoli. Bu i’r bobl ifanc hefyd gwblhau eu hachrediad ‘O’r Pridd i’r Plât’ yn ystod y broses.

Bu i bobl ifanc y pentref goginio cawl cennin a thatws hyfryd, gyda phob cynhwysyn wedi’i dyfu yng nghefn y pafiliwn, dim ond ychydig droedfeddi i ffwrdd o ble cafodd ei goginio. Bu i aelodau’r clwb ei fwynhau yn fawr gan fwydo hyd at 18 o bobl ifanc.

Hoffem ni hefyd ddiolch i drigolyn lleol y pentref, Stewart, sy’n cynnal a chadw’r rhandir yn ystod yr wythnos gan ei gadw’n neis ac yn daclus ac yn cynnal y rhandiroedd i safon uchel iawn. Hebddo, ni fuasai’r bobl ifanc wedi gallu gwneud y prosiect hwn, mae’n glod i’r pentref, felly hoffem ddiolch yn fawr iawn iti Stewart.

Dyma rai lluniau o’r prosiect ...







Matt Mullender

EGLWYS ST GWYDDELAN

Mae Eglwys Sant Gwyddelan yn rhan o Ardal Weinidogaeth Bro Gwydyr yr Eglwys yng Nghymru sy'n cynnwys Betws-y-Coed, Dolgarrog, Trefriw, Penmachno a Llanrhychwyn. Caiff gwasanaethau dwyieithog rheolaidd eu cynnal yn Nolwyddelan ar y dydd Sul cyntaf a'r trydydd o'r mis, gan amlaf am 9:30yb, mae croeso i bawb ddod draw.
Mae manylion llawn yr holl wasanaethau yn yr Ardal Weinidogaeth ar wefan Bro Gwydyr - https://brogwydyr.cymru/ lle gallwch weld y newyddlen digwyddiadau wythnosol (neu sganiwch y cod QR).

Mae modd trefnu gwasanaethau ar gyfer priodasau, angladdau, bedyddiadau ac achlysuron eraill, cysylltwch â swyddfa'r ardal weinidogaeth . . .
admin@brogwydyr.cymru
Neu am ofal bugeiliol, cysylltwch gyda, Stuart . . .
Ficer@BroGwydyr.Cymru Tel. 01690 710313

'DOLI YN EI BLODAU'

Dathlu ei ben-blwydd yn 20 oed

Hoffech chi fod yn rhan o'n criw cyfeillgar o arddwyr, gan helpu i gadw Dolwyddelan yn edrych yn lliwgar ac yn falch ohono'i hun?
Rydym yn cyfarfod o bryd i'w gilydd yn ystod y flwyddyn o gwmpas y pentref er mwyn plannu, tacluso ardaloedd blêr a chadw'r prif ardaloedd yn hardd ac yn glod i'r pentref a hyn oll wrth fwynhau'r awyr iach a chwmni ffrindiau.
Mae'r llefydd rydym yn gofalu amdanynt yn cynnwys – platfform yr orsaf, maes parcio'r orsaf, cilfan Pont Arenig, mynwent Bryn y Bedd a'r nifer o ddalwyr blodau sy'n harddu ein pentref drwy gydol y flwyddyn. Mae gennym rota o ddau berson y mis i dacluso, chwynnu a brwsio gardd y Senotaff. Rydym yn croesawu aelodau newydd bob tro.

Gweithgorau sydd wedi'u cynllunio (dim mwy na dwy awr fel arfer) ...
Dydd Sadwrn 29ain o Fawrth @10.30 –

Platfform yr orsaf drenau, y maes parcio a'r gerddi.
(Os hoffai unrhyw un yr ydych yn ei adnabod gymryd drosodd darn o dir ar yr ymyl, rhowch wybod inni.)

Gweithgor plannu i'w drefnu ym Mryn y Bedd yn ddiweddarach ym mis **Mai.**

Dydd Sadwrn 3ydd o Fai 11.00yb –

Digwyddiad codi arian ym maes parcio'r orsaf os bydd hi'n sych neu yn y Pafiliwn os bydd hi'n wlyb.

Angie

Gerddi Agored Dolwyddelan

Dyddiad i'r dyddiadur: Dydd Sadwrn Mehefin 7fed

Byddwn ni'n trefnu'r Digwyddiad Gerddi Agored yn y pentref unwaith eto eleni fel ein digwyddiad codi arian blynyddol ar gyfer Eglwys Sant Gwyddelan. Mae Gerddi Agored yn ddigwyddiad lle mae pobl y pentref yn cynnig agor eu gardd, neu ran o'u gardd, am y diwrnod, i ymwelwyr gael golwg o'u cwmpas. Mae'n gyfle i gael ysbrydoliaeth o wahanol fathau o erddi a gwahanol ffyrdd o arddio, cael rhai syniadau, sgwrsio ag eraill, yn aml iawn bydd lluniaeth ar gael a'r dewis i brynu rhai planhigion sydd wedi'u tyfu'n lleol.

Rydym ni'n chwilio am bobl sy'n barod i ymuno eleni ac agor eu gardd am y diwrnod. Mae gennym ddiddordeb mawr mewn ystod eang o arddulliau garddio - gerddi ar gyfer cynnyrch (tyfu ffrwythau a llysiau), ar gyfer bywyd gwyllt (dolydd, ardaloedd gwyllt), gerddi bach neu fach iawn - ychydig o botiau ar batio neu fath penodol o ardd/arddull, yn ogystal â gerddi ar gamau gwahanol o ddatblygiad (does yr un ardd erioed wedi 'gorffen'). Felly, peidiwch â meddwl nad ydy eich gardd chi'n addas, mae croeso mawr i bawb.

Os hoffech chi gymryd rhan yn y digwyddiad, cysylltwch gyda Sue Layland ar sue.layland@gmail.com am fwy o wybodaeth. Bydd gwybodaeth am brynu tocynnau ar gael yn nes at yr amser ar bosteri o gwmpas y pentref ac ar dudalen Facebook yr eglwys.





Sue Layland

LLYFRAU AIL-LAW AR WERTH

Mae stoc ychwanegol wedi ymddangos ar y silffoedd o lyfrau ail-law yn y Pafiliwn.

Paratowch ar gyfer y gwanwyn gyda llyfrau yn ymwneud a llysiau, blodau, a phob math o arddio.

Ar gael i'w prynu yn y Pafiliwn pan welwch y goleuadau arnodd.

Blwch Gonestrwydd.



CYNGOR CYMUNED DOLWYDDELAN

Adeilad Coffa Cwt Hers ym Mynwent Bryn y Bedd

Lle tawel a llonydd ar gael i unrhyw un fyfyrio.



Mae Cyngor Cymuned Dolwyddelan bellach yn cynnig lle ym mynwent Bryn y Bedd i wasgaru llwch ac adeilad coffa aml-ddefnydd lle mae modd cynnal gwasanaethau. Os hoffech chi gofio am eich anwylyd fel hyn, mae'r lleoliad hardd hwn ar gael ar gyfer gwasanaethau preifat. Mae modd gosod plac coffa y tu mewn i'r adeilad. Cysylltwch gyda Chlerc y Cyngor Cymuned am fwy o wybodaeth.

AILGYLCHU

Fel y gwyddoch, mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy wedi rhoi'r gorau i ddosbarthu'r calendr casglu biniau. Mae copi o'r calendr ar yr hysbysfwrdd ar yr hen safle bws ac mae'r calendr hefyd ar gael ar wefan Cyngor Conwy, i'w lawrlwytho a'i argraffu, neu gallwch lawrlwytho'r ap o wefan y cyngor Preswylwyr>Ailgylchu a Gwastraff>Ap Conwy. Bydd yr ap yn anfon nodyn atgoffa bob nos Fawrth o'r hyn gaiff ei gasglu'r diwrnod canlynol. Os nad ydych chi eisiau'r ap, gallwch roi nod tudalen ar gyfer y wefan. Os byddwch chi'n dweud wrtho am gofio eich cyfeiriad yn y dyfodol, bydd y nodyn tudalen yn eich arwain yn syth at eich casgliad chi. www.conwy.gov.uk/en/Resident/Recycling-and-Waste/Check-my-collection-day.aspx

Gallwch hefyd gofrestru ar gyfer 'Fy Nghonwy'. Unwaith byddwch chi wedi cofrestru, bydd gennych dudalen hafan bersonol fydd yn dangos eich dyddiadau casglu nesaf (ymhlith pethau eraill). www.conwy.gov.uk/en/Resident/MyConwy-Account/My-Conwy-Account.aspx

Mae Cyngor Conwy yn gwneud casgliad gwastraff swmpus o hyd at 4 eitem am £30 os oes gennych unrhyw beth mawr sydd angen ei symud.

CYNLLUN CYMUNEDOL DOLWYDDELAN

Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae Cyngor Cymuned Dolwyddelan wedi bod yn datblygu Cynllun Cymunedol – fframwaith ar gyfer ffyniant a lles ein cymuned yn y dyfodol. Mae Ymgynghoriaeth Rhos wedi bod yn gweithio gyda ni, a bellach, mae cael cynllun drafft wedi ein galluogi i ddechrau denu cyllid ar gyfer prosiectau penodol, gan gynnwys arwyddion newydd, adfer y senotaff a chomisiynu gwaith i adolygu dichonoldeb atgyfodi Cynllun Hydro Penamnen a chynllun llifogydd Cymunedol.

Mae datblygiad y cynllun bellach ar ben, ond mae'n debyg mai penllanw'r gwaith hwn ydy dechrau'r gwaith go iawn – cael mwy o'r gymuned i gymryd rhan, denu cyllid a datblygu amwynderau, asedau a gwasanaethau newydd a fydd yn sicrhau dyfodol Dolwyddelan a Chwm Lledr.
Bydd Marc Roberts o Ymgynghoriaeth Rhos yn cyflwyno'r canfyddiadau ac yn ein diweddaru ar ddatblygiadau diweddar a chyfleoedd ariannu. Rydym wedi trefnu dwy sesiwn ym mis Mawrth i roi cyfle i bobl ddod i wrando a rhannu eu barn ...

Y Pafiliwn
11eg o Fawrth, rhwng **1yp a 5yh**
15fed o Fawrth, rhwng **11yb a 3yp**

TRAFNIDIAETH

Bu i Uchelgais Gogledd Cymru lansio ymgynghoriad cyhoeddus pwysig ar Gynllun drafft Trafnidiaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru ar yr 20fed o Ionawr. Mae'r ymgynghoriad 12 wythnos hon yn rhoi cyfle i breswylwyr, busnesau ac ymwelwyr siapio dyfodol trafnidiaeth yng ngogledd Cymru. Mae'r ymgynghoriad yn rhedeg tan Ebrill 14eg 2025, ac mae modd rhoi adborth drwy arddangosfa rithwir ar-lein, dros e-bost neu drwy'r post. Am fwy o fanylion ac i lenwi'r holiadur ewch i wefan yr ymgynghoriad
northwalesregionaltransportplan.virtual-engage.com neu cysylltwch gyda northwalesregionaltransportplan@arup.com

Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru – Cynllun Trafnidiaeth ar gyfer Gogledd Cymru

Dyma GYFLE ichi DDWEUD EICH DWEUD.

Rydym rhoi cyfle i breswylwyr rannu eu sylwadau ar y ddogfen ymgynghori ar gyfer dyfodol cynlluniau trafnidiaeth gogledd Cymru. Gallaf ddarparu crynodeb o'r ddogfen ichi ar y diwrnod.
Eu nod ar gyfer yr ardal wledig ydy blaenoriaethu cysylltu cymunedau gwledig yn well gyda threfi cyfagos, cyfleusterau cymunedol cyfagos, meddygfeydd, ysbytai a siopau yn ogystal â chydgysylltu'r rheilffordd.
Eu hamcanion ydy ...

- Grymuso cymunedau lleol i arwain at gymryd rhan a chymryd perchnogaeth o ddatblygu atebion i broblemau trafnidiaeth.
- Cyfle i geisio cyflawni'r gwelliannau trafnidiaeth sy'n angenrheidiol yn gymdeithasol i atal arwahanrwydd gwledig.

Caiff y cyfarfod ei gynnal yn y Pafiliwn ar
DDYDD MERCHER 5ed o Fawrth o 1:00yp tan 4:00yp

ILD
PEIRIANNEG ENGINEERING

Domesdig ~ Ffermio ~ Busnes

Domestic ~ Farming ~ Business

Cattlegrids – Gates – Railings
Birdfeeders – Garden metalwork
Agricultural machinery repairs
etc.

Gwefan: ildcattlegrids.co.uk

Ebost: ildcattlegrids@gmail.com
ildaviesengineering@gmail.com

Ffon: 07760295557

Bodhi
MOVEMENT

Bodywork & Movement Studio

The Studio, Royal Oak Stables,
Betws y Coed

Injury Assessment
Sports Massage
Movement Analysis
Yoga Classes

01690 359081
www.bodhi-movement.co.uk

Carrie & Mike look forward
to welcoming you

Plas Penaeldroch

ACCOMMODATION
Pont-y-pant

For information find us
on Facebook
Plas Penaeldroch Manor

Pont-y-Pant, Dolwyddelan
LL25 OPJ Tel. 01690 750 316
www.penaeldroch.co.uk

MEITHRINFA'R FELIN NURSERY

Dolwyddelan
01690 750 319
07880 838 556



Basgedi Crôg **Hanging Baskets**
Planhigion i'r Ardd **Bedding plants**
Planhigion Llysiau **Vegetable Plants**
Planhigion Ty **House Plants**
Compost

AJ PHYSIO
Alison Liederbach
Chartered Physiotherapist

AJP

The Old Surgery
Church Street
Dolwyddelan LL25 0SJ

Appointments 07780 165844
Email: aliphys@icloud.com
Facebook: AJPhysioDolwyddelan

Baabarella
Crafts & Gifts

SALES@BAABARELLA.CO.UK
FACEBOOK: BAABARELLA
WWW.BAABARELLA.CO.UK



Bespoke, handcrafted gifts & items using wool from the sheep on our family farm in beautiful Dolwyddelan, Snowdonia.



Snowdonia Massage Therapies

Alison Richmond MGHT
Mobile Therapist

Neal's Yard Remedies
Independent Consultant
Massage Treatments and
Hot Stone Therapy

Call: **01690 750 222**
Mob: **07534 284 188**

Visit my Neal's Yard shop:
www.uk.nyrorganic.com/shop/alison richmond
Facebook: alisonrichmondnealsyard
10% discount off all Massage Treatments with this advert. Please quote - Menter Siabod when booking, discount cannot be used in conjunction with any other offer.

GARY 'LOGS' EDWARDS

LOGS and KINDLING

Small or large loads

07718 505 093

